Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

At: Aelodau’r Cabinet

Dyddiad: 19 Medi 2018

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe’ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 25 MEDI 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I’R WASG AC AELODAU’R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O’R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 (copi’n amgaeedig).

**5 ARDAL GWELLA BUSNES Y RHYL** (Tudalennau 17 - 62)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â datblygu Ardal Gwella Busnes y Rhyl, ac yn ceisio cymeradwyaeth i'w sefydlu.

**6 AMRYWIO CONTRACTAU CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF O'R CARTREF CYNGOR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 63 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi'n amgaeedig) ynglŷn â threfniadau gweithredu tair Canolfan Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref y Cyngor yn y dyfodol.

**7 POLISÏAU CYFLOGAETH** (Tudalennau 69 - 216)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol dros Safonau Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn argymell mabwysiadu nifer o bolisïau cyflogaeth.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18** (Tudalennau 217 - 242)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad y Cyngor â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2017/18.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 243 - 260)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 261 - 266)

Derbyn Blaenraglen Waith y Cabinet sy'n amgaeedig, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu cau allan o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 DEWISIADAU AR GYFER GORFODI RHAG TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL** (Tudalennau 267 - 278)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd (copi'n amgaeedig) ynglŷn â'r dewisiadau ar gyfer gorfodi amgylcheddol yn y sir.

**12 DARPARU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 279 - 314)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd (copi'n amgaeedig) ynglŷn â chynigion ar gyfer lleoliadau safleoedd preswyl a safleoedd tramwy i Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â materion cysylltiedig o ran cynllunio, ariannu a chyfathrebu.

**13 CASTELL BODELWYDDAN, BODELWYDDAN** (Tudalennau 315 - 334)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o delerau gwerthu'r buddiant rhydd-ddaliadol yng Ngwesty Castell Bodelwyddan a rhan o'r ystâd, yn unol â'r manylion yn yr adroddiad.

**14 TIR YN NHIRIONFA, FFORDD GALLT MELYD, RHUDDLAN** (Tudalennau 335 - 350)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio telerau penderfyniad blaenorol y Cabinet ynglŷn â gwerthu'r safle.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Tony Thomas |
| Bobby Feeley | Julian Thompson-Hill |
| Huw Hilditch-Roberts | Brian Jones |
| Richard Mainon | Mark Young |

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned